Llwybrau Hyrwyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

# Taith y Ffridd, Yr Ysgwrn, Trawsfynydd

**HAWDD**




### Trosolwg o'r Daith

- Pellter: 1.5km (Oddeutu 1 milltir)
- Hyd: 1 awr
- Math o daith: Cylchdaith

### ⚠ Cyn i chi gychwyn

Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

eryri.llyw.cymru



V-20231111/1916




Ewch drwy giât fetel fechan ddu yng nghornel isaf y maes parcio.




Ewch drwy giât fechan arall ar y dde, dilynwch ffin y cae a thrwy giât fferm i'r cae nesaf.




Ewch dros bont bren a cherddwch tuag at y fainc bren gan gadw'r wal gerrig ar eich dde.





Ewch drwy giât bren fechan ac ymlaen i'r tir coediog. Dilynwch y llwybr i'r dde cyn troi'n ôl am eich hun i fyny'r allt.





Ewch drwy giât fechan arall ac allan i'r ffridd. Dilynwch yr arwyddbyst.




Cerddwch dros y bont a thrwy fwlch yn y wal. Dilynwch y llwybr defaid nes y gwelwch arwyddbost arall.




Cadwch ar ochr dde'r nant a mynd drwy giât. Parhewch i lawr y grisiau cerrig a thrwy ddwy giât fetel ddu. Cerddwch heibio tu blaen ffermdy'r Ysgwrn.




Mae'r llwybr bychan sy'n troi oddi ar y ffordd i'r chwith yn mynd a chi at olygfan o ardal Trawsfynydd. Parhewch yn eich blaen i ddychwelyd i'r maes parcio.